Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

3 Medi 2020

Annwyl Mark

Cyflwyno adroddiad i'r Senedd ar wneud deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, a defnyddio pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020

Yn ein cyfarfod ar 24 Awst 2020, gwnaethom drafod **adroddiad cyntaf Llywodraeth Cymru** i'r Senedd ar ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phandemig y coronafeirws.

Rydym yn ymwybodol eich bod, yn ystod trafodaethau'r Senedd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Coronafeirws ar y pryd, wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Senedd ynghylch defnyddio'r pwerau o dan *Ddeddf y Coronafeirws 2020* (Deddf 2020).

Rydym yn croesawu'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru bellach wedi'i fabwysiadu o ran gosod adroddiad sy'n rhoi manylion yr holl is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Weinidogion Cymru neu a wnaed ar eu rhan, ac nid yn unig y ddeddfwriaeth sy'n tarddu o Ddeddf 2020.

Mae hwn yn ddull mwy ystyrlon, gan nad yw Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pwerau yn Neddf 2020 yn rhy aml. Yn lle hynny, maent wedi defnyddio'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU o dan *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* ac, i raddau llai, y pwerau sydd ar gael mewn Deddfau eraill, gan gynnwys *Deddf Addysg (Cymru) 2014* a *Deddf GIG (Cymru) 2006*.

Rydym o'r farn bod y dull a fabwysiadwyd gennych bellach yn ddefnyddiol ac yn dryloyw, a hoffem eich canmol am ddilyn arfer da mewn cyfnod pan mae sicrhau eglurder cyfreithiol ar gyfer holl ddinasyddion Cymru yn hynod bwysig.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English